FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 – rheoliad 41 ar dreuliau a ddaw yn sgil 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'

Nodiadau Cyfarwyddyd

(Tachwedd, 2007)

CYNNWYS

		Tudalen
Nodiadau pwysig		**4**
Cyflwyniad		**6**
Adran 1: Gofynion a diffiniadau cyfreithiol		**8**
C1.	Beth yw sail gyfreithiol y gofyniad i godi am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol?	8
C2.	Beth yw 'awdurdodau cymwys'?	8
C3.	Beth yw 'rheolaethau swyddogol'?	8
C4.	Beth yw 'gweithgareddau ymyrryd eraill'?	8
C5.	Beth yw 'mesurau gorfodi'?	9
C6.	Beth yw 'gweithgareddau rheoli arferol'?	9
C7.	Beth yw'r cynllun rheoli cenedlaethol unigol integredig amflynyddol?	9
C8.	A oes gan y DU gynllun rheoli cenedlaethol ar waith?	9
C9.	Beth yw 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'?	10
C10.	Beth sy'n 'achos o beidio â chydymffurfio'?	10
C11.	Beth yw'r cysylltiad rhwng taliadau Erthygl 28 a'r fframwaith presennol o sancsiynau a chosbau am beidio â chydymffurfio?	10
C12.	Beth yw'r egwyddorion y mae'n rhaid eu hystyried wrth gyfrifo lefel y treuliau a ddaw yn sgil 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'?	10
C13.	Beth sy'n 'gostau gwirioneddol'?	11
C14.	Sut rhoddir darpariaeth Erthygl 28 Rheoliad 882/2004 ar waith ar lefel genedlaethol?	11
C15.	Pa feysydd cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt?	11
C16.	Pwy sy'n gyfrifol ar lefel Llywodraeth ganolog am feysydd eraill cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, a sut rhoddir Erthygl 28 mewn grym o ran y meysydd hyn?	12
Adran 2: Amgylchiadau lle codir taliadau		13
C17.	Pryd fydd taliadau'n cael eu codi?	13
C18.	A yw Cynllun Rheoli Cenedlaethol y DU yn manylu ar lefelau'r 'gweithgareddau rheoli arferol' sy'n digwydd?	13
C19.	A yw rheolaethau swyddogol a roddir ar waith mewn cysylltiad â mesurau diogelu mewn argyfwng ohonynt eu hunain yn 'weithgareddau rheoli ychwanegol'?	13
C20.	Sut bydd yr awdurdodau cymwys yn penderfynu a yw gweithgareddau wedi mynd y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol'?	14

C21. Beth yw'r ffactorau mynegol hyn? 14

C22. Beth am achosion lle mae'r ASB wedi gofyn i awdurdodau cymwys gyflawni archwiliadau ychwanegol ar gynhyrchion bwyd anifeiliaid neu fwyd? 14

C23. A ddylid codi taliadau bob amser pan fydd archwilwyr yn ailymweld i wirio a yw achosion o beidio â chydymffurfio wedi'u cywiro? 15

C24. A oes unrhyw enghreifftiau o ba bryd y bydd taliadau'n cael eu codi? 15

C25. A yw'n bosibl na ellir codi taliadau Erthygl 28 oni bai bod yr awdurdod cymwys hefyd yn cymryd camau gorfodi ffurfiol (gan gynnwys erlyniadau) yn erbyn y gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid/bwyd mewn cysylltiad â'r achos o beidio â chydymffurfio? 16

Adran 3: Awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau 17

C26. Pa awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau? 17

C27. Lle bo Adrannau neu Asiantaethau eraill y Llywodraeth yn cyflawni swyddogaethau rheoli swyddogol ar ran yr Asiantaeth, ai'r Asiantaeth ynteu'r corff arall fydd yn codi'r taliadau? 17

C28. Lle bo'r Adrannau neu'r Asiantaethau Llywodraeth eraill hyn yn bwriadu codi taliadau Erthygl 28, a fydd a wnelo'r ASB â hyn? 17

C29. Lle bo awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yn bwriadu codi taliadau Erthygl 28, a fydd a wnelo'r ASB â hyn? 17

Adran 4: Gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd y gellir codi taliadau arnynt..... 18

C30. Pwy all yr awdurdodau cymwys godi taliadau arnynt? 18

C31. Pa opsiwn mae'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 yn darparu ar ei gyfer? 18

C32. Beth yw ystyr 'gweithredwyr'? 18

C33. Pwy ddylid codi taliadau arnynt dan ba amgylchiadau? 18

C34. Pwy ddylid codi taliadau arnynt yn achos bwyd anifeiliaid a bwyd sydd wedi'i fewnforio o'r tu allan i'r Gymuned? 19

C35. Yn achos awdurdodau lleol, sut bydd codi taliadau'n gweithio pan fydd a wnelo mwy nag un awdurdod lleol â nhw? 19

Adran 5: Gweithgareddau y gellir codi taliadau amdanynt 20

C36. Beth all yr awdurdodau cymwys godi taliadau amdanynt? 20

C37. Pa fath o weithgareddau sy'n 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'? 20

C38. A yw hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynghorol neu weithgareddau addysg, neu weithgareddau sy'n ymwneud â chasglu gwybodaeth? 20

C39. A yw'n cynnwys camau gorfodi ffurfiol (e.e. cyhoeddi rhybuddion, cadw neu ddistrywio bwyd anifeiliaid/bwyd, erlyn)? 21

C40. Lle codir taliadau Erthygl 28, a lle bo erlyniad dilynol cysylltiedig yn llwyddiannus a dyfernir costau i'r awdurdod cymwys, a fydd yn rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid/bwyd dalu ddwywaith am yr un gweithgareddau? 21

C41. Yn y sector cig, beth yw'r gwahaniaeth rhwng taliadau Erthygl 28 a'r 'taliadau ychwanegol' mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn eu codi? 21

Adran 6: Lefel y taliadau 22

C42. Ar ba lefel y bydd taliadau'n cael eu codi? 22

C43. Sut bydd costau o'r fath yn cael eu cyfrifo? 22

C44. Pa ffactorau y mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol cyn yr ystyrir gostwng lefel taliad? 22

C45. Yn achos gweithredwyr â thrwybwn isel, faint o ostyngiad fydd yn y taliad? 22

C46. A fydd gostyngiad yn lefel y taliadau a godir ar yr holl weithredwyr sy'n gweithredu mewn rhanbarthau lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol? 23

C47. Lle bo gweithredwyr yn anghysbell yn ddaearyddol, faint o ostyngiad fydd yn y taliad? 23

C48. A fydd gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd yn cael dadansoddiad o'r costau? 23

C49. A fydd gan weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd hawl i apelio yn erbyn y taliadau? 23

C50. Pam nad yw'r Offeryn Statudol yn pennu hawl ffurfiol i apelio? 23

Atodiad: Rheoliad 882/2004 – Erthyglau 26 i 29, ac Atodiad VI 24

Nodiadau pwysig

Statws y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn

1. Nod y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yw darparu cyngor anffurfiol, anstatudol ynglŷn â rheoliad 41 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007, sy'n ymwneud â threuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol. Mae Rheoliad 41 yn rhoi grym yng Nghymru (mewn cysylltiad â rheolaethau swyddogol y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol amdanynt) i Erthygl 28 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol.[1] Mae'n ofynnol dan Erthygl 28 codi ffioedd sy'n ymwneud â threuliau a ddaw yn sgil 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'.

2. Dylid darllen y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ar y cyd â'r Offeryn Statudol (OS) a'r Rheoliad CE.

3. Ni ddylid cymryd bod y cyngor a roddir a'r enghreifftiau a ddefnyddir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn ddatganiad neu'n ddehongliad awdurdodol o'r ddeddfwriaeth, gan mai'r llysoedd yn unig sydd â'r pŵer hwn.

Diben y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn

4. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi paratoi'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn gan nad yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi sefydlu rheolau gweithredu manwl nac unrhyw gyfarwyddyd i egluro sut i gymhwyso darpariaeth Erthygl 28.

5. Nid oes yn rhaid talu ffi am reolaethau swyddogol ychwanegol dan Erthygl 28 oni bai bod achosion o beidio â chydymffurfio a bod y gweithgareddau rheoli y mae'n rhaid eu cyflawni o ganlyniad yn mynd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ofynnol dan gyfraith y Gymuned neu gyfraith genedlaethol ac, yn benodol, y rheiny a ddisgrifir yng nghynllun rheoli cenedlaethol amlflynyddol yr Aelod-Wladwriaeth. O ystyried hynny, mae'r Asiantaeth yn disgwyl mai pur anaml y bydd taliadau'n cael eu codi (nifer fach o achosion bob blwyddyn) ac na fyddant yn cael eu codi oni bai fod yn rhaid cymryd camau cywiro oherwydd bod risg ar ddigwydd a/neu fod risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd neu i fuddiannau cyhoeddus, a bod yr adnoddau sy'n ofynnol i drin y gweithgareddau rheoli y tu hwnt i weithgareddau cynlluniedig yr awdurdod cymwys. Paratowyd y Nodiadau hyn ar y sail honno, â'r bwriad o egluro Erthygl 28 a sicrhau bod taliadau'n cael eu codi mewn modd teg a chyson.

---

[1] Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ar reolaethau swyddogol a roddir ar waith i sicrhau bod cydymffurfiad â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid, yn cael ei gadarnhau. Cyfnodolyn Swyddogol L191, 28.5.2004, 1-52.

Cwmpas y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn

6. Paratowyd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn mewn cysylltiad â'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007, felly Cymru yn unig maent yn ei chwmpasu, a'r rhannau hynny o gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt ar lefel Llywodraeth ganolog.[2] Fe ymgynghorwyd ag Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddatblygu'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

7. Mae'r ASB wedi paratoi Nodiadau Cyfarwyddyd cyfatebol o ran y ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Adolygu a diwygio'r Nodiadau Cyfarwyddyd

8. Bydd y Nodiadau Cyfarwyddyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a byddant yn cael eu diwygio a'u diweddaru fel bo angen i adlewyrchu:

   - datblygiadau ar lefel yr UE (yn enwedig, unrhyw reolau gweithredu manwl neu gyfarwyddyd i egluro sut i gymhwyso darpariaeth Erthygl 28 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn eu sefydlu);
   - newidiadau i gynllun rheoli cenedlaethol unigol integredig y DU (yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2007 a mis Mawrth 2011);
   - profiad yr awdurdodau cymwys ledled y DU o ran cymhwyso taliadau Erthygl 28 yn y sectorau bwyd anifeiliaid a bwyd (yn ogystal ag yn y sectorau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, lle bo hynny'n briodol), a sefydlu cyfraith achosion berthnasol.

Gwybodaeth bellach

9. I gael mwy o wybodaeth neu gyngor ar y materion y mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn eu cwmpasu, cysylltwch â Jayne Griffiths yn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru. Dyma'i manylion cyswllt:

Jayne Griffiths

Ffôn: 029 2067 8908

E-bost: jayne.griffiths@foodstandards.gsi.gov.uk

---

[2] Mae'r ASB yn gyfrifol ar lefel Llywodraeth ganolog am brif gorff cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a'r Adrannau Amaethyddiaeth/Materion Gwledig yn y Gweinyddiaethau Datganoledig yn gyfrifol rhyngddynt am yr elfennau bwyd anifeiliaid a bwyd hynny sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ASB (e.e. labelu cig eidion, safonau ar gyfer cynnyrch organig, enwau bwyd wedi'u hamddiffyn; gweddillion plaladdwyr a chyffuriau milfeddygol, bwyd anifeiliaid meddyginiaethol ac ati). O ran y mwyafrif o'r meysydd hyn, rhoddwyd grym ar lefel genedlaethol i ddarpariaethau Rheoliad 882/2004 ar dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol trwy gynnwys mesurau yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007 (Offeryn Statudol 2007/196 [W.15]). Eto, mae mesurau tebyg wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth gyfochrog ar gyfer yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd mesurau sy'n ymwneud â ffioedd am reolaethau swyddogol a gynhwysir yn Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2007 yn sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn cael eu cymhwyso yn achos bwyd anifeiliaid meddyginiaethol ac ychwanegion penodedig at fwyd anifeiliaid.

Cyflwyniad

10. O 1 Ionawr 2007, fe sefydlodd Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol fframwaith ar gyfer cyllido rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd, (Erthyglau 26 i 29), ac mae'n rhaid i Aelod-Wladwriaethau weithredu o fewn y fframwaith hwn. Dan Erthygl 28, mae'n ofynnol i'r awdurdodau cymwys godi taliad (h.y. ffi) am y treuliau a ddaw yn sgil 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' sydd wedi'u cyflawni yn dilyn datgelu achos o beidio â chydymffurfio, h.y. rheolaethau sy'n mynd y tu hwnt i weithgareddau rheoli arferol yr awdurdod cymwys a gyflawnir dan ddeddfwriaeth y Gymuned a deddfwriaeth genedlaethol, yn benodol y rheiny a ddisgrifir yn y cynllun rheoli cenedlaethol unigol integredig amflynyddol.

11. Mae testun Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar gael ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd yn:

    http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2004/l_191/l_19120040528en00010052.pdf

    Mae Erthyglau 26 i 29 ac Atodiad VI y Rheoliad wedi'u hatgynhyrchu yn yr Atodiad i'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

12. Mae'r fersiwn diweddaraf o Gynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflynyddol y DU ar gyfer mis Ionawr 2007 i fis Mawrth 2011 ar gael ar wefan yr ASB yn:

    http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/feedandfood/ncpuk

13. Mae Rheoliad 41 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 (mae darpariaethau tebyg wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth gyfochrog yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn rhoi grym yng Nghymru i'r darpariaethau yn Rheoliad 882/2004 ar dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol, cyn belled ag y mae hyn yn berthnasol i'r rhannau hynny o gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt. Gellir lawrlwytho copïau o'r Rheoliadau o wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn:

    http://www.opsi.gov.uk/si/si200732.htm

14. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd (sydd ar ffurf cwestiynau ac atebion) wedi'u rhannu'n chwe adran fel a ganlyn:

    Adran 1: Gofynion a diffiniadau cyfreithiol – nod hyn yw egluro cefndir y gofyniad i awdurdodau cymwys godi taliad (h.y. ffi) am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol, a dwyn sylw at ddiffiniadau sy'n bwysig o ran rhoi gweddill yr adrannau yn y Nodiadau Cyfarwyddyd yn eu cyd-destun.

Adran 2: Amgylchiadau lle codir taliadau – nod hyn yw egluro pryd gall yr awdurdod cymwys godi am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

Adran 3: Awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau – nod hyn yw egluro pa awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

Adran 4: Gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd y gellir codi taliadau arnynt – nod hyn yw egluro pwy y gellir codi arnynt am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

Adran 5: Gweithgareddau y gellir codi taliadau amdanynt – nod hyn yw egluro'r hyn y gall yr awdurdodau cymwys godi taliadau amdano.

Adran 6: Lefel y taliadau – nod hyn yw egluro faint y gall yr awdurdod cymwys ei godi.

Adran 1: Gofynion a diffiniadau cyfreithiol

Mae'r cwestiynau a'r atebion yn yr adran hon yn egluro cefndir y gofyniad i awdurdodau cymwys godi taliad (h.y. ffi) am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol, a dwyn sylw at ddiffiniadau sy'n bwysig o ran rhoi gweddill yr adrannau yn y Nodiadau Cyfarwyddyd yn eu cyd-destun.

C1. Beth yw sail gyfreithiol y gofyniad i godi am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol?

A1. Manylir ar y rheolau ar gyllido rheolaethau swyddogol yn Rheoliad 882/2004 yn Erthyglau 26 i 29 (gweler yr Atodiad). Mae'r rhain yn golygu bod Aelod-Wladwriaethau'n gyffredinol rwymedig i sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cyllido'n briodol ond, yn fras, gall yr Aelod-Wladwriaeth benderfynu sut i wneud hyn. Fodd bynnag, wrth wneud hyn, mae'n rhaid i'r Aelod-Wladwriaeth weithredu o fewn fframwaith diffiniedig, a dylai ystyried egwyddorion penodol wrth gyfrifo ffioedd neu daliadau lle codir y rhain. Mae ffioedd yn ofynnol o fewn y fframwaith ar gyfer rhai gweithgareddau rheoli penodol, ac mae hyn yn cynnwys gofyniad i godi am dreuliau a ddaw yn sgil gweithgareddau rheoli yr ymgymerir â nhw yn dilyn datgelu achos o beidio â chydymffurfio ac sy'n mynd y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol' yr awdurdod cymwys – h.y. 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'. Mae'r gofyniad hwn yn Erthygl 28.

C2. Beth yw 'awdurdodau cymwys'?

A2. Diffinnir 'awdurdodau cymwys' at ddibenion Rheoliad 882/2004 yn Erthygl 2(4). I bob diben, awdurdod neu awdurdodau canolog Aelod-Wladwriaeth sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli swyddogol cenedlaethol yw'r rhain, yn ogystal ag awdurdodau eraill sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â'r gyfraith, ac am orfodi'r gyfraith.

C3. Beth yw 'rheolaethau swyddogol'?

A3. Diffinnir 'rheolaethau swyddogol' at ddibenion Rheoliad 882/2004 yn Erthygl 2(1). I bob diben, unrhyw ffurf ar archwiliadau y mae awdurdodau cymwys yn yr Aelod-Wladwriaethau'n eu cyflawni i gadarnhau a yw gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid/bwyd yn cydymffurfio'r â'r gofynion y manylir arnynt yng 'nghyfraith bwyd anifeiliaid/cyfraith bwyd' yw'r rhain. Disgrifir gweithgareddau, dulliau a thechnegau rheoli yn Erthygl 10 Rheoliad 882/2004 ac maent yn cynnwys, er enghraifft, arolygiadau, archwiliadau, gwyliadwriaeth, samplo a dadansoddi ac ati.

Nid yw 'gweithgareddau ymyrryd eraill' y mae awdurdodau cymwys yn eu cyflawni yn 'rheolaethau swyddogol' (gweler cwestiwn ac ateb 4).

Yn yr un modd, nid yw mesurau gorfodi y mae'r awdurdodau cymwys yn eu sefydlu yn sgil yr archwiliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff cyntaf A3 yn 'rheolaethau swyddogol' (gweler cwestiwn ac ateb 5).

C4. Beth yw 'gweithgareddau ymyrryd eraill'?

A4. Gellir gosod y gweithgareddau hyn mewn dau gategori: gweithgareddau cynghorol ac addysgol; a chasglu gwybodaeth. Maent wedi'u cynllunio i gynorthwyo gweithredwyr i gydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid/bwyd neu i gynyddu hyn (yn hytrach nag archwilio i weld a ydynt yn cydymffurfio). Gan nad yw gweithgareddau o'r fath yn 'rheolaethau swyddogol', ni ellir defnyddio Erthygl 28 i adfer costau cysylltiedig a ddaw i ran yr awdurdod cymwys (gweler cwestiwn ac ateb 38).

C5. Beth yw 'mesurau gorfodi'?

A5. Nid oes diffiniad penodol o'r term 'mesurau gorfodi' yn Rheoliad 882/2004 ond, i bob diben, gellir disgrifio'r rhain fel camau gorfodi ffurfiol y mae'r awdurdodau cymwys yn eu cymryd yn dilyn rheolaethau swyddogol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achos o beidio â chydymffurfio, neu i'w gywiro, e.e. cyhoeddi rhybuddion gwella, cadw neu ddistrywio bwyd anifeiliaid /bwyd, neu erlyn ac ati. Nid yw 'mesurau gorfodi' yn 'rheolaethau swyddogol', felly ni ellir defnyddio Erthygl 28 i adfer costau cysylltiedig a ddaw i ran yr awdurdod cymwys yn eu sgil (gweler cwestiwn ac ateb 39). Gellir defnyddio'r ddarpariaeth yn Rheoliad 34 i adfer costau a ddaw i ran yr awdurdodau cymwys am y mesurau hyn pan maent yn cael eu cyflawni mewn cysylltiad â Rhan 3 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 o ran bwyd anifeiliaid, a bwyd nad yw'n deillio o anifeiliaid, o drydydd wledydd.

C6. Beth yw 'gweithgareddau rheoli arferol'?

A6. Mae Erthygl 28 yn cyfeirio at 'weithgareddau rheoli arferol' ac yn disgrifio'r rhain fel gweithgareddau rheoli beunyddiol sy'n ofynnol dan gyfraith y Gymuned neu gyfraith genedlaethol (mae hyn yn cynnwys rheolaethau a gyflawnir mewn cysylltiad â mesurau diogelu mewn argyfwng, er enghraifft, y rheiny a gyflawnir dan Erthygl 53 Rheoliad 178/2002 – gweler cwestiwn ac ateb 19) ac, yn benodol, y rheiny a ddisgrifir yng nghynllun rheoli cenedlaethol unigol integredig amlflynyddol yr Aelod-Wladwriaeth.

C7. Beth yw'r cynllun rheoli cenedlaethol unigol integredig amflynyddol?

A7. Manylir ar y gofyniad i fod â chynllun o'r fath ar waith hefyd yn Rheoliad 882/2004 (Erthygl 41). Dylai'r cynllun fanylu ar rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau cymwys sydd a wnelo â rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd (a hefyd rheolaethau ar gyfer iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, ac iechyd planhigion), a manylu ar eu gweithgareddau rheoli cynlluniedig ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae Cyfarwyddyd y Comisiwn yn awgrymu y dylai'r cynllun gwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd.[3]

[3] Penderfyniad 2007/363/EC y Comisiwn yn gosod canllawiau i gynorthwyo Aelod-Wladwriaethau wrth iddynt baratoi'r cynllun rheoli cenedlaethol unigol integredig amlflynyddol y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad (CE) Rhif *882*/2004 Senedd a Chyngor Ewrop. Cyfnodolyn Swyddogol L138, 30.5.2007, 24-49.

C8. A oes gan y DU gynllun rheoli cenedlaethol ar waith?

A8. Oes, a dyma'r allwedd i ddiffinio 'gweithgareddau rheoli arferol' yn y DU ac, yn ei dro, i benderfynu pa bryd y dylid codi taliadau am 'reolaethau swyddogol ychwanegol'. Mae Cynllun Rheoli Cenedlaethol y DU ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2007 a mis Mawrth 2011 wedi'i gyhoeddi ar wefan yr ASB trwy'r cyswllt isod.

http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/feedandfood/ncpuk

Yn ogystal â disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol awdurdodau a chyrff cysylltiedig sydd a wnelo â rheolaethau swyddogol ar gyfer bwyd anifeiliaid a bwyd, a disgrifio sut mae'r awdurdodau a'r cyrff eraill hyn yn cydweithio, mae'n manylu ar y gweithgareddau rheoli swyddogol beunyddiol cynlluniedig yn ystod cyfnod y cynllun. Yn achos gwasanaethau rheoleiddio cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd awdurdodau lleol, manylir yn fwy trylwyr ar y gweithgareddau rheoli cynlluniedig hyn yng Nghynllun Darparu Gwasanaeth pob awdurdod, sef cynllun y mae'n rhaid iddo fod ar waith dan dermau'r *Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol*.[4]

C9. Beth yw 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'?

A9. 'Rheolaethau swyddogol ychwanegol' yw'r rheiny a gyflawnir yn dilyn datgelu achos o beidio â chydymffurfio ac sydd y tu hwnt i weithgareddau beunyddiol yr awdurdod cymwys. Mae *math (natur) ac ystod* gweithgareddau rheoli y gellid eu cyflawni yr un fath ag ydynt ar gyfer rheolaethau beunyddiol, e.e. samplo a dadansoddi. *Lefel* gweithgareddau o'r fath, h.y. lefel sydd y tu hwnt i'r hyn a gyflawnir yn feunyddiol, sy'n nodweddu 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'. Mae'r rheolaethau ychwanegol yn ofynnol i wirio graddau problem, i gadarnhau a yw camau cywiro wedi'u cymryd ai peidio, ac i ddatgelu achos pellach o beidio â chydymffurfio a/neu gadarnhau achos o beidio â chydymffurfio.

C10. Beth sy'n 'achos o beidio â chydymffurfio'?

A10. Diffinnir 'achos o beidio â chydymffurfio' yn Erthygl 2(10) Rheoliad 882/2004 fel 'peidio â chydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd ac â'r rheolau ar gyfer amddiffyn iechyd a lles anifeiliaid'. Yng nghyd-destun Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007, i bob diben, mae'n golygu peidio â chydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt ar lefel Llywodraeth ganolog.

C11. Beth yw'r cysylltiad rhwng taliadau Erthygl 28 a'r fframwaith presennol o sancsiynau a chosbau am beidio â chydymffurfio?

A11. **Nid** sancsiwn na chosb mo taliadau Erthygl 28, felly nid yw'r ddarpariaeth yn effeithio ar y fframwaith presennol o sancsiynau a chosbau am beidio â chydymffurfio. Ffioedd gorfodol yw taliadau Erthygl 28, a godir i dalu am gostau math penodol o weithgaredd rheoli swyddogol (h.y. rheolaethau swyddogol ychwanegol a gyflawnir yn dilyn datgelu achos o beidio â chydymffurfio).

[4] Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/frameworkjuly04.pdf.

C12. Beth yw'r egwyddorion y mae'n rhaid eu hystyried wrth gyfrifo lefel y treuliau a ddaw yn sgil 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'?

A12. Mae'r egwyddorion yr un fath â'r rheiny y dylid eu hystyried wrth osod ffioedd ar gyfer gweithgareddau rheoli swyddogol eraill lle codir y rhain – mae hyn yn ofynnol dan Erthygl 29. Manylir ar yr egwyddorion yn Erthyglau 27(4)(a) a 27(5). Yn ymarferol, mae'r egwyddorion hyn yn golygu na ddylai lefel y treuliau y codir amdanynt ar gyfer 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' fod yn uwch na chostau gwirioneddol yr awdurdod cymwys am y rheolaethau a gyflawnir. Ar ben hyn, dylai Aelod-Wladwriaethau ystyried: a) y math o fusnes dan sylw a'r ffactorau risg perthnasol; b) buddiannau busnesau â thrwybwn isel; c) dulliau traddodiadol a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu, prosesu a dosbarthu; a ch) anghenion busnesau mewn rhanbarthau lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol. Yn ein barn ni, yn ymarferol, b) a ch) yn unig allai effeithio ar lefel y treuliau y codir amdanynt (gweler cwestiwn ac ateb 44).

C13. Beth sy'n 'gostau gwirioneddol'?

A13. Dylid cyfeirio at *Atodiad VI* Rheoliad 882/2004 (gweler yr Atodiad) wrth gyfrifo costau gwirioneddol rheolaethau swyddogol. Mae hwn yn rhestru'r meini prawf y dylid eu hystyried, sef cyflogau a chostau (cyfleusterau, offer, cyfarpar, hyfforddiant, teithio a chostau cysylltiedig) y staff sy'n ymwneud â chyflawni rheolaethau swyddogol, a chostau samplo a dadansoddi mewn labordy. Nid yw hyn yn cynnwys costau ymyraethau oni bai eu bod yn rheolaethau swyddogol (h.y. gweithgareddau cynghorol neu addysgol, neu gasglu gwybodaeth). Yn yr un modd, nid yw'n cynnwys costau unrhyw gamau gorfodi ffurfiol cysylltiedig, e.e. cyhoeddi rhybuddion gwella, cadw neu ddistrywio bwyd anifeiliaid/bwyd, na chostau (gan gynnwys costau cyfreithiol) sy'n gysylltiedig ag erlyn.

C14. Sut rhoddir darpariaeth Erthygl 28 Rheoliad 882/2004 ar waith ar lefel genedlaethol?

A14. Mae darpariaethau Rheoliad 882/2004 yn uniongyrchol gymwys (h.y. mae iddynt rym y gyfraith ohonynt eu hunain yn y DU, gan ddod i rym o'r un dyddiad ag y daw'r darpariaethau perthnasol yn y Rheoliad i rym) ond mae angen mesurau i roi'r rhain mewn grym ar lefel genedlaethol.

O ran y gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdani ar lefel Llywodraeth ganolog (gweler y paragraff isod), rhoddir grym i Erthygl 28 yng Nghymru trwy gyfrwng rheoliad 41 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007.

Yn syml, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weithredwr dalu treuliau y mae awdurdod cymwys yn codi taliadau arno amdanynt yn unol ag Erthygl 28 Rheoliad 882/2004 ar orchymyn ysgrifenedig yr awdurdod cymwys. Mewn geiriau eraill, pan godir taliadau, bydd y gweithredwr bwyd anifeiliaid/bwyd yn derbyn anfoneb oddi wrth yr awdurdod perthnasol a bydd yn rhaid iddo ei thalu.

Mae mesurau tebyg wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth gyfochrog ar gyfer yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

C15. Pa feysydd cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt?

A15. Mae'r ASB yn gyfrifol am brif gorff cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd (yn y wlad hon ac yn yr UE), yn enwedig pan mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a bwyd fel y cyfryw. Diffinnir cwmpas y cyfrifoldebau hyn yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 yn Atodlen 2, sy'n diffinio 'cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol', ac Atodlen 3, sy'n diffinio 'cyfraith bwyd berthnasol'. I bob diben, mae hyn yn cynnwys rheolau ar hylendid; ychwanegion; halogion; labelu a chyfansoddiad; materion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â rheolau TSE[5]; bwyd anifeiliaid a bwyd a addaswyd yn enetig; deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd; a bwyd anifeiliaid, a bwyd nad yw'n deillio o anifeiliaid, a fewnforir o'r tu allan i'r Gymuned.

C16. Pwy sy'n gyfrifol ar lefel Llywodraeth ganolog am feysydd eraill cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, a sut rhoddir Erthygl 28 mewn grym o ran y meysydd hyn?

A16. Yng Nghymru, Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol ar lefel Llywodraeth ganolog am gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd sydd y tu allan i gylch gorchwyl yr Asiantaeth ond sydd dal o fewn cwmpas Rheoliad 882/2004. Mae hyn yn cynnwys labelu cig eidion, safonau ar gyfer cynnyrch organig, enwau bwyd wedi'u hamddiffyn; sgil-gynhyrchion anifeiliaid (mewn perthynas â bwyd anifeiliaid); agweddau iechyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid ar reolau TSE; cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd o ran y gofynion iechyd anifeiliaid; bwyd anifeiliaid meddyginiaethol[6] ac ychwanegion penodedig at fwyd anifeiliaid[7]; a gweddillion plaladdwyr a chyffuriau milfeddygol.

O ran mwyafrif y meysydd hyn, rhoddir grym i ddarpariaeth Erthygl 28 Rheoliad 882/2004 oherwydd bod mesur cyfatebol i'r mesur sydd wedi'i gynnwys yn neddfwriaeth yr ASB – sef rheoliad 13(2) – wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007 (Offeryn Statudol 2007/196 [Cy.15])[8]. Eto, mae mesurau tebyg wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth gyfochrog ar gyfer yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

O ran bwyd anifeiliaid meddyginiaethol ac ychwanegion penodedig at fwyd anifeiliaid, bydd mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2007 (Offeryn Statudol 2007/2539)[9] ar ffioedd ar gyfer rheolaethau swyddogol yn sicrhau bod treuliau Erthygl 28 yn cael eu hadfer.

---

5 Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy

6 Bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynnyrch meddygol milfeddygol na ellir ei gyflenwi i geidwad anifeiliaid oni bai ei fod yn cyflwyno presgripsiwn yw bwyd anifeiliaid meddyginiaethol.

7 Sylwedd a ychwanegir at fwydydd anifeiliaid fel mater o drefn, heb bresgripsiwn, i atal cocsidiosis neu histomonosis, neu i effeithio'n ffafriol ar dwf anifeiliaid, yw ychwanegyn penodedig at fwyd anifeiliaid.

8 Mae copi o Offeryn Statudol 2007/196 [Cy.15] ar gael yn: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/20070196w.htm

9 Mae copi o Offeryn Statudol 2007/2539 ar gael yn: http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/20072539.htm

Adran 2: Amgylchiadau lle codir taliadau

Nod y cwestiynau a'r atebion yn yr adran hon yw egluro pryd gall yr awdurdod cymwys godi am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

C17. Pryd fydd taliadau'n cael eu codi?

A17. Ni chodir taliadau oni bai fod achos o beidio â chydymffurfio wedi'i gadarnhau a bod hyn wedi arwain at gyflawni gweithgareddau 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' ar lefel sydd y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol' yr awdurdod cymwys h.y. y rheiny sy'n ofynnol dan gyfraith y Gymuned neu gyfraith genedlaethol ac, yn benodol, y rheiny a ddisgrifir yn y Cynllun Rheoli Cenedlaethol.

C18. A yw Cynllun Rheoli Cenedlaethol y DU yn manylu ar lefelau'r 'gweithgareddau rheoli arferol' sy'n digwydd?

A18. Mae'r cyfrifoldeb am reolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd yng Nghymru wedi'i rannu rhwng Asiantaethau'r Llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol. Mae'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol yn darparu gwybodaeth gyffredinol am weithgareddau rheoli cynlluniedig y gwahanol awdurdodau hyn. Fodd bynnag, o ystyried nifer yr awdurdodau dan sylw, nid yw'n manylu ar lefelau amcanol gweithgareddau rheoli pob un o'r rhain. Yn hytrach, mae'n croesgyfeirio at gynlluniau busnes lleol, cytundebau cyflenwi gwasanaeth ac ati, sydd yn darparu gwybodaeth berthnasol.

Yn achos awdurdodau lleol, er enghraifft, mae'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol yn croesgyfeirio at y gofyniad yn y *Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol* i fod â Chynllun Cyflenwi Gwasanaeth ar waith.[10] Mae'n rhaid i'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth hwn ystyried gofynion *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid*[11] a'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid ar gyfer Cymru*[12] i gynllunio gweithgareddau gorfodi ar sail risg, ac ystyried blaenoriaethau lleol fel bod gwasanaeth cynhwysfawr yn cael ei ddarparu. Dylai Cynlluniau o'r fath gynnwys amcangyfrifon ynghylch math a lefel y 'gweithgareddau rheoli arferol' a fydd yn cael eu cyflawni.

Dylid nodi bod y cynlluniau busnes lleol, cytundebau cyflenwi gwasanaeth ac ati hyn eisoes yn cynnwys rhywfaint o weithredu dilynol, e.e. ailymweliadau sy'n fater o drefn yn dilyn arolygiadau i sicrhau bod camau cywiro wedi'u cymryd, a hefyd amcangyfrifon ynghylch y galw ar y gwasanaeth am ddelio â digwyddiadau bwyd anifeiliaid/bwyd mwy arferol (gweler hefyd cwestiwn ac ateb 23).

[10] Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/frameagree/

[11] Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/feedlawcop/

[12] Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/foodlawcop/copwales

C19. A yw rheolaethau swyddogol a roddir ar waith mewn cysylltiad â mesurau diogelu mewn argyfwng ohonynt eu hunain yn 'weithgareddau rheoli ychwanegol'?

A19. Nac ydynt. Mae mesurau o'r fath, er enghraifft y rheiny a wneir dan Erthygl 53 Rheoliad 178/2002, yn rhan o gyfraith y Gymuned. Mae'r Comisiwn a'r Aelod-Wladwriaethau'n ystyried y mater ffioedd am y rheolaethau swyddogol hyn pan roddir y mesurau diogelu ar waith.

Yn yr un modd ag yn achos mesurau diargyfwng, fodd bynnag, fe *allai* achos o beidio â chydymffurfio mewn argyfwng olygu y bydd angen 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' ac, o'r herwydd, y bydd angen codi taliad Erthygl 28.

C20. Sut bydd yr awdurdodau cymwys yn penderfynu a yw gweithgareddau wedi mynd y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol'?

A20. Mae'r gweithgareddau a ddisgrifir yng Nghynllun Rheoli Cenedlaethol y DU a chynlluniau cyflenwi gwasanaeth lleol ac ati yn allweddol i hyn. Pan ystyrir y rhain gyda'i gilydd, rydym o'r farn mai pur anaml yn bydd gweithredu'n debygol o fynd y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol'.

Rydym o'r farn na fydd sefyllfaoedd o'r fath, yn gyffredinol, yn debygol o ddigwydd oni bai fod yn rhaid cymryd camau cywiro oherwydd bod risg ar ddigwydd a/neu fod risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd, neu risg sylweddol i fuddiannau defnyddwyr (e.e. twyll bwyd, camlabelu neu gamddisgrifio, torri cyfraith bwyd yn gyson a thrachefn) a bod yr adnoddau sy'n ofynnol i reoli'r gweithgareddau y tu hwnt i weithgareddau cynlluniedig yr awdurdod (os bydd y gweithgareddau rheoli a gyflawnir yn golygu gwario mwy na'r hyn sydd wedi'i neilltuo yn y gyllideb arferol, gallai hyn fod yn arwydd bod y gweithgareddau hyn y tu hwnt i weithgareddau cynlluniedig, ond ni ddylid defnyddio'r ffactor hwn ar ei ben ei hun wrth benderfynu a yw taliadau Erthygl 28 yn briodol).

Yn ymarferol, bydd angen barnu pob sefyllfa fesul achos, ond er mwyn helpu i sicrhau dull cyson o weithredu, gellir defnyddio nifer o ffactorau mynegol i gynorthwyo â phenderfynu a yw rheolaethau swyddogol ychwanegol wedi'u cyflawni ai peidio.

C21. Beth yw'r ffactorau mynegol hyn?

A21. Y ffactorau hyn yw *difrifoldeb* a *chymhlethdod* yr achos o beidio â chydymffurfio, a *natur/graddau (nifer)* y gweithgareddau rheoli.

- *Difrifoldeb* – wrth fesur hyn, dylid ystyried natur y risg i naill ai iechyd y cyhoedd, neu i iechyd anifeiliaid neu i fuddiannau defnyddwyr, a niferoedd a/neu grwpiau'r defnyddwyr y gellid effeithio arnynt.

- *Cymhlethdod* – wrth fesur hyn, dylid ystyried nifer yr achosion o beidio a chydymffurfio a ddatgelwyd/sy'n cael eu datgelu mewn perthynas â'r mater penodol, nifer y cynhyrchion/lleoliadau y gellid effeithio arnynt, nifer yr awdurdodau dan sylw, a graddau'r tynnu yn ôl/galw yn ôl h.y. olrhain.

- *Natur/graddau (nifer) y gweithgareddau rheoli* – wrth fesur hyn, dylid ystyried yr adnoddau sy'n ofynnol i reoli'r gweithgareddau, a ph'un a ystyrir bod gweithgareddau o'r fath o fewn gweithgareddau cynlluniedig yr awdurdod.

Lle bydd achosion tebyg blaenorol wedi gosod cynseiliau ar gyfer codi taliadau (gan gynnwys achosion awdurdodau eraill), dylid codi taliadau a dylid eu cyfrifo ar yr un sail.

C22. Beth am achosion lle mae'r ASB wedi gofyn i awdurdodau cymwys gyflawni archwiliadau ychwanegol ar gynhyrchion bwyd anifeiliaid neu fwyd?

A22. Mewn achosion o'r fath, er enghraifft os bydd yr ASB yn gofyn i awdurdodau lleol/awdurdodau iechyd porthladdoedd gyflawni archwiliadau ychwanegol ar fwyd anifeiliaid neu fwyd sydd wedi'i fewnforio, ar sail tystiolaeth o achos o beidio â chydymffurfio a gyflenwir gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac er mwyn mesur graddau problem, bydd yr Asiantaeth yn nodi a fydd taliadau Erthygl 28 yn berthnasol ai peidio.

C23. A ddylid codi taliadau bob amser pan fydd archwilwyr yn ailymweld i wirio a yw achosion o beidio â chydymffurfio wedi'u cywiro?

A23. Fel y nodwyd yng nghwestiwn ac ateb 18, bydd cynlluniau busnes lleol, cytundebau cyflenwi gwasanaeth ac ati'r awdurdodau cymwys eisoes yn cynnwys rhywfaint o weithredu dilynol, megis ailymweliadau yn dilyn arolygiadau i sicrhau bod camau cywiro wedi'u cymryd. O ystyried hyn, nid ydym o'r farn y dylid codi taliadau Erthygl 28 yn awtomatig am bob ailymweliad. Yn yr un modd ag achosion eraill, dylid ystyried y ffactorau mynegol y manylir arnynt yng nghwestiwn ac ateb 21, a barnu fesul achos.

C24. A oes unrhyw enghreifftiau o ba bryd y bydd taliadau'n cael eu codi?

A24. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd lle mae'n debygol bod achos o beidio â chydymffurfio, a bod gweithgareddau y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol', ac o'r herwydd bod taliadau'n berthnasol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau halogiad cemegol mawr sy'n golygu risg uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, e.e. halogiad diocsin bwyd anifeiliaid, sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyflawni ymchwiliadau hirfaith, gan gynnwys dadansoddiadau costus o samplau, i fesur graddau'r broblem ac i sicrhau bod yr holl anifeiliaid, cynhyrchion anifeiliaid a bwyd anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt yn cael eu tynnu yn ôl o'r gadwyn bwyd anifeiliaid a'r gadwyn fwyd.

- Digwyddiadau arwyddocaol gwenwyn bwyd sy'n galw am sylw nifer o wahanol awdurdodau lleol, ac sy'n golygu bod angen nifer sylweddol o archwiliadau o systemau rheoli diogelwch bwyd, a samplo a dadansoddi bwyd.

- Ymchwiliadau ynghylch tarddiad anifeiliaid sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd.[13] Pan fydd yr awdurdod cymwys yn darganfod nad yw'r cofnodion, y ddogfennaeth neu'r wybodaeth arall gysylltiedig yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa ynglŷn â'r tarddiad a honnir neu wir gyflwr yr anifeiliaid, neu pan fydd y milfeddyg swyddogol wedi'i gamarwain yn fwriadol, ac mae angen rheolaethau ychwanegol i ymchwilio i hyn (e.e. arolygiadau ar y fferm y daeth y cynhyrchion ohoni i archwilio cofnodion ac asesu iechyd a lles anifeiliaid ar y fferm).[14]
- Lle canfyddir bod bwyd gwerth uchel sydd wedi'i ragbacio, e.e. reis Basmati neu olew olewydd gwyryf pur wedi'i ddifwyno'n sylweddol yn ei fan cyrraedd i'r DU, a lle bo angen samplo a dadansoddi dilynol ar raddfa fawr yn y man cyfanwerthu neu adwerthu o'r bwyd sydd wedi'i ragbacio i fesur graddau'r broblem ac i sicrhau bod camau cywiro'n cael eu cymryd.

C25. A yw'n bosibl na ellir codi taliadau Erthygl 28 oni bai bod yr awdurdod cymwys hefyd yn cymryd camau gorfodi ffurfiol (gan gynnwys erlyniadau) yn erbyn y gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid/bwyd mewn cysylltiad â'r achos o beidio â chydymffurfio?

A25. Nac ydyw. Mae'n ofynnol dan Erthygl 28 bod taliad yn cael ei godi i adfer costau 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'. O ystyried hyn, dylid codi taliadau, lle bo hynny'n briodol, p'un a yw'r gweithredwr bwyd anifeiliaid/bwyd dan sylw'n cael ei erlyn ai peidio am unrhyw 'achos o beidio â chydymffurfio' a arweiniodd at y rheolaethau ychwanegol, neu p'un a gymerir camau gorfodi ffurfiol eraill ai peidio.

[13] Rheoliad 854/2004, Atodiad I, Adran II, Pennod II, para 5.

[14] Mae hwn yn achos arbennig. Rydym o'r farn nad oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddarpariaeth yn Rheoliad 854/2007 ac Erthygl 28 Rheoliad 882/2004 o ran y rhagamodau cyfreithiol i'w cymhwyso. Yr unig wahaniaeth yw bod y cyntaf yn berthnasol o ran un set benodol o amgylchiadau yn unig, tra bo cwmpas Erthygl 28 lawer yn ehangach. O ystyried hyn, rydym o'r farn mai is-set o Erthygl 28 yw'r ddarpariaeth yn Rheoliad 854/2004 i bob diben.

Adran 3: Awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau

Nod y cwestiynau a'r atebion yn yr adran hon yw egluro pa awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

C26. Pa awdurdodau cymwys sydd â'r hawl i godi taliadau?

A26. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 yn dynodi'r awdurdodau cymwys sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol yng Nghymru o ran cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdani ar lefel Llywodraeth ganolog. Mae'r darpariaethau a wnaed i roi grym i Erthygl 28 ar gael i'r awdurdodau hyn, sef:

- yr Asiantaeth – mae hyn yn cynnwys y swyddogaethau rheoli swyddogol y mae swyddogion yr ASB (gan gynnwys y Gwasanaeth Hylendid Cig) yn eu cyflawni a'r rheiny y mae Arolygiaeth Hylendid Llaeth/Iechyd Anifeiliaid, a'r Arolygiaeth Marchnata Wyau (y mae'r ddwy ohonynt yn rhan o Iechyd Anifeiliaid, sef Asiantaeth Weithredol Defra) yn eu cyflawni ar ran yr ASB; ac
- awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yng Nghymru – awdurdodau bwyd anifeiliaid ac awdurdodau bwyd.

C27. Lle bo Adrannau neu Asiantaethau eraill y Llywodraeth yn cyflawni swyddogaethau rheoli swyddogol ar ran yr ASB, ai'r Asiantaeth ynteu'r corff arall fydd yn codi'r taliadau?

A27. Mewn achosion o'r fath (gweler cwestiwn ac ateb 26 uchod), yr ASB yw'r awdurdod cymwys o ran gweithgareddau rheoli. Mae'r Adrannau/ Asiantaethau eraill yn gweithredu fel asiantau'r Asiantaeth ac, yn ymarferol, yr asiantau hyn fydd yn codi'r taliadau ac yn eu casglu.

C28. Lle bo'r Adrannau neu'r Asiantaethau Llywodraeth eraill hyn yn cynnig codi taliadau Erthygl 28, a fydd a wnelo'r ASB â hyn?

A28. Bydd. O ystyried natur darpariaeth Erthygl 28, dylai'r Adrannau neu'r Asiantaethau Llywodraeth eraill hyn ymgynghori â'r ASB (mae'r manylion cysylltu wedi'u nodi ar dudalen 5 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn) cyn codi unrhyw daliadau Erthygl 28. Y nod yw sicrhau bod taliadau'n cael eu codi'n briodol ac yn gyson.

C29. Lle bo awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yn bwriadu codi taliadau Erthygl 28, a fydd a wnelo'r ASB â hyn?

A29. Gall yr awdurdod lleol neu'r awdurdod iechyd porthladdoedd benderfynu a fyddant yn codi taliadau Erthygl 28 ai peidio, ond o ystyried ein bod o'r farn mai pur anaml y bydd taliadau'n berthnasol, rydym yn cynghori'n gryf bod awdurdodau'n ymgynghori â'u cyrff cynrychioliadol yn y lle cyntaf, sef LACORS[15] neu APHA[16], cyn gwneud hynny. Lle bo angen cyngor pellach, dylai LACORS neu APHA ymgynghori â'r ASB (mae'r manylion cysylltu wedi'u nodi ar dudalen 5 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn).

[15] LACORS – Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol.

[16] APHA – Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd

Adran 4: Gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd y gellir codi taliadau arnynt

Nod y cwestiynau a'r atebion yn yr adran hon yw egluro pwy y gellir codi arnynt am dreuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

C30. Pwy all yr awdurdodau cymwys godi taliadau arnynt?

A30. Mae Erthygl 28 Rheoliad 882/2004 yn nodi y dylai'r awdurdod cymwys godi taliadau ar y gweithredwyr sy'n gyfrifol am yr achos o beidio â chydymffurfio, neu efallai ar y gweithredwr sy'n berchen ar y nwyddau neu sy'n eu cadw ar y adeg pan gyflawnir y rheolaethau swyddogol ychwanegol. I bob diben, mae hyn yn darparu opsiwn i'r DU ar gyfer y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddomestig: gallai'r rhain gael eu cyfyngu i godi taliadau ar y gweithredwr sy'n gyfrifol am yr achos o beidio â chydymffurfio; neu, gallai'r rhain ddarparu ar gyfer codi taliadau ar naill ai'r gweithredwr sy'n gyfrifol am yr achos o beidio â chydymffurfio neu'r gweithredwr sy'n berchen ar y nwyddau neu'n eu cadw ar yr adeg y datgelir yr achos o beidio â chydymffurfio, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

C31. Pa opsiwn mae'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 yn darparu ar ei gyfer?

A31. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cymhwyso'r naill na'r llall o'r opsiynau uchod *yn benodol* gan nad oes angen gwneud hyn yn gyfreithiol ac nid yw'n briodol. Fodd bynnag, maent yn rhoi cyfle i godi taliadau ar naill ai'r gweithredwr sy'n gyfrifol am yr achos o beidio â chydymffurfio neu'r gweithredwr sy'n berchen ar y nwyddau neu'n eu cadw ar yr adeg y datgelir yr achos o beidio â chydymffurfio, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

C32. Beth yw ystyr 'gweithredwyr'?

A32. Yng nghyd-destun Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 ystyr hyn yw 'gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid' a 'gweithredwyr busnesau bwyd' yn ôl y diffiniad yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 ar Gyfraith Bwyd Gyffredinol.[17] Diffiniadau bras yw'r rhain, ac mae rhywfaint o gyfarwyddyd ynglŷn â'r hyn y maent yn eu cwmpasu wedi'i gynnwys yn: *Guidance Notes for Food Business Operators on Food Safety, Traceability and Product Withdrawal and Recall: a guide to compliance with Articles 14, 16, 18 and 19 of General Food Law Regulation 178/2002* (Gorffennaf 2007). Mae hwn ar gael ar wefan yr ASB yn:

http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/ASB1782002guidance.pdf

[17] Rheoliad CE 178/2002 Senedd a Chyngor Ewrop sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, sy'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac sy'n gosod gweithdrefnau ar gyfer materion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd. Cyfnodolyn Swyddogol L31, 1.2.2002, 1-24.

C33. Pwy ddylid codi taliadau arnynt dan ba amgylchiadau?

A33. Y gweithredwr sy'n gyfrifol am yr achos o beidio â chydymffurfio y dylid codi taliadau arno lle bynnag bo'n bosibl. Weithiau bydd y gost a'r amser mae'n rhaid ei dreulio i gadarnhau pwy sydd wedi bod ar fai mewn achos o beidio â chydymffurfio yn anghymesur â'r taliadau sy'n cael eu codi. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod cymwys ystyried codi taliadau ar y gweithredwr sy'n berchen ar y nwyddau neu'n eu cadw ar yr adeg y datgelir yr achos o beidio â chydymffurfio ac y cyflawnir y rheolaethau ychwanegol. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r gweithredwr hwnnw dalu'r costau i'r awdurdod cymwys.

C34. Pwy ddylid codi taliadau arnynt yn achos bwyd anifeiliaid a bwyd sydd wedi'i fewnforio o'r tu allan i'r Gymuned?

A34. Mae'n ofynnol dan Reoliad 178/2002 ar Gyfraith Bwyd Gyffredinol bod bwyd anifeiliaid a bwyd a fewnforir o'r tu allan i'r Gymuned yn bodloni gofynion cyfraith y Gymuned neu'n bodloni safonau eraill y cydnabyddir eu bod yn gyfatebol i hyn. Mae'r Rheoliad hefyd yn gosod cyfrifoldeb am sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid/bwyd yn bodloni'r gofynion hyn. Daw mewnforwyr o fewn diffiniad 'gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid/ bwyd' felly dylai'r awdurdod cymwys godi taliadau ar y mewnforiwr (neu gynrychiolydd y mewnforiwr) am y treuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol.

C35. Yn achos awdurdodau lleol, sut bydd codi taliadau'n gweithio pan fydd a wnelo mwy nag un awdurdod lleol â nhw?

A35. Mewn achosion o'r fath, dylai pob awdurdod lleol sy'n cyflawni 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' godi taliadau er mwyn adfer costau'r rheolaethau penodol hynny yn unig, a bydd y rhain yn daladwy i'r awdurdod hwnnw. Rhoddir cyfarwyddyd ar y gweithgareddau y dylent godi taliadau amdanynt yn Adran 5, a rhoddir cyfarwyddyd ar y lefel y dylid gosod taliadau arni yn Adran 6.

Dylai'r awdurdodau lleol sydd a wnelo â'r achos gysylltu â'r Awdurdod Cartref/Prif Awdurdod (os oes un) ac unrhyw awdurdodau perthnasol eraill fel bo'n briodol o ran p'un a ddylid codi taliadau ai peidio. Fodd bynnag, cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol sydd a wnelo â'r achos fydd anfonebu'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid/bwyd dan sylw am y treuliau a ddaw yn sgil y gweithgareddau y cyflawnodd yr awdurdod hwnnw, a mynd ar drywydd achosion lle na dderbynnir taliad.

Fel y dygwyd sylw ato yng nghwestiwn ac ateb 29, o ystyried ein bod o'r farn mai pur anaml y bydd taliadau'n berthnasol, cynghorir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori â'u cyrff cynrychioliadol, sef LACORS neu APHA, ynglŷn ag addasrwydd codi taliadau cyn eu codi.

Adran 5: Gweithgareddau y gellir codi taliadau amdanynt

Nod y cwestiynau a'r atebion yn yr adran hon yw egluro'r hyn y gall yr awdurdod cymwys godi taliadau amdanynt.

C36. Beth all yr awdurdodau cymwys godi taliadau amdanynt?

A36. Gall yr awdurdodau cymwys godi taliadau am y treuliau hynny a ddaw yn sgil gweithgareddau 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' (h.y. y rheolaethau hynny a gyflawnir lle datgelir achos o beidio â chydymffurfio ac lle mae'r rheolaethau hynny y tu hwnt i weithgareddau beunyddiol yr awdurdod cymwys).

C37. Pa fath o weithgareddau sy'n 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'?

A37. Mae *math ac ystod* y gweithgareddau y mae hyn yn eu cynnwys yr un fath ag ydynt ar gyfer 'rheolaethau swyddogol arferol' a gyflawnir fel mater o drefn. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ffurf ar archwiliad y mae'r awdurdod cymwys yn ei gyflawni i gadarnhau a yw gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd ai peidio. Mae'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir i wneud hyn yn cynnwys monitro, gwyliadwriaeth, dilysu, archwilio, arolygu, a samplo a dadansoddi. Ymhlith enghreifftiau o'r gweithgareddau rheoli y gellid eu cyflawni mae:

- archwilio unrhyw systemau rheoli y mae gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid neu fwyd wedi'u rhoi ar waith;
- archwilio amodau hylendid mewn sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd;
- asesu gweithdrefnau ynglŷn ag arferion gweithgynhyrchu da, arferion hylendid da, arferion ffermio da ac ati;
- archwilio deunydd ysgrifenedig a chofnodion eraill;
- cyfweld gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd, a'u staff;
- darllen y gwerthoedd mae offer mesur busnesau bwyd anifeiliaid neu fwyd wedi'u cofnodi;
- defnyddio offer yr awdurdod cymwys ei hun i ddilysu'r mesuriadau mae gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd wedi'u cymryd; ac
- unrhyw weithgaredd arall sy'n ofynnol i sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd wedi'u bodloni.

Lefel y gweithgareddau uchod (ac mae'n rhaid bod achos o beidio â chydymffurfio wedi'i ddatgelu) sy'n pennu a yw Erthygl 28 yn berthnasol ai peidio. Mae'n rhaid i hyn fod y tu hwnt i 'weithgareddau rheoli arferol' yr awdurdod (gweler cwestiynau ac atebion 18 – 20).

C38. A yw hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynghorol neu weithgareddau addysg, neu weithgareddau sy'n ymwneud â chasglu gwybodaeth?

A38. Nac ydyw. Nid yw gweithgareddau o'r fath yn rheolaethau swyddogol gan nad archwiliadau cydymffurfio ydynt, ond yn hytrach ymyraethau gan yr awdurdod cymwys â'r nod o gefnogi neu gynyddu cydymffurfiad.

C39. A yw hyn yn cynnwys camau gorfodi ffurfiol (e.e. cyhoeddi rhybuddion, cadw neu ddistrywio bwyd anifeiliaid/bwyd, erlyn)?

A39. Nac ydyw. Nid yw gweithgareddau o'r fath yn 'rheolaethau swyddogol' gan ei bod yn amlwg nad archwiliadau cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid/bwyd ydynt. Felly ni ellir codi taliadau amdanynt dan reoliad 41 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 o ran treuliau a ddaw yn sgil y gweithgareddau hyn neu yn sgil gweithgareddau tebyg.

C40. Lle codir taliadau Erthygl 28, a lle bo erlyniad dilynol cysylltiedig yn llwyddiannus a dyfernir costau i'r awdurdod cymwys, a fydd yn rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid/bwyd dalu ddwywaith am yr un gweithgareddau?

A40. Na fydd. Lle mae taliadau Erthygl 28 wedi'u codi a chostau am 'reolaethau swyddogol ychwanegol' eisoes wedi'u hadfer, ni all yr awdurdod cymwys geisio cynnwys costau o'r fath mewn unrhyw hawliad sy'n gysylltiedig â'r erlyniad, ac felly mae wedi'i gyfyngu i hawlio am gostau'r erlyniad ei hun yn unig.

C41. Yn y sector cig, beth yw'r gwahaniaeth rhwng taliadau Erthygl 28 a'r 'taliadau ychwanegol' mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn eu codi?

A41. Mae'r MHS yn codi taliadau ar weithredwyr busnesau bwyd am y rheolaethau swyddogol 'beunyddiol' y mae'n eu cyflawni mewn safleoedd cig cymeradwy. Y sail gyfreithiol ar gyfer hyn yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007 (Offeryn Statudol 2007/843 [Cy.75]). Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 'taliadau ychwanegol' gan yr MHS dan rai amgylchiadau penodol. Mae gan y 'taliadau ychwanegol' hyn swyddogaeth wahanol i swyddogaeth taliadau Erthygl 28, ac nid ydynt yn gorgyffwrdd.

Mae 'taliadau ychwanegol' yn berthnasol pan mae yna aneffeithlonrwydd ar ran y gweithredwr busnes bwyd, ac maent yn galluogi'r MHS i adfer ei gostau am weithgareddau rheoli swyddogol 'beunyddiol'. Gall aneffeithlonrwydd fod ar amryw o ffurfiau, ond nid yw a wnelo'r rhain ar y cyfan â sefyllfaoedd lle ceir 'achos o beidio â chydymffurfio' â chyfraith bwyd fel sy'n ofynnol cyn daw Erthygl 28 i rym. Yr unig eithriad yw yr ystyrir 'camau gorfodi' yn aneffeithlonrwydd yng nghyd-destun Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007, ond eto mae Erthygl 28 yn wahanol gan nad yw'n galluogi codi taliadau am gamau gorfodi.

Cynhwysir cyfarwyddyd manwl ar 'daliadau ychwanegol' MHS yn: *'a Guide for Food Business Operators to MHS Charges for Official Controls (the Charges Guide).'* Mae hwn ar gael ar wefan yr ASB yn:

http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/mhschargesguide.pdf

Adran 6: Lefel y taliadau

Nod y cwestiynau a'r atebion yn yr adran hon yw egluro faint y gall yr awdurdod cymwys ei godi.

C42. Ar ba lefel y bydd taliadau'n cael eu codi?

A42. Gosodir lefel y taliad ar lefel costau gwirioneddol yr awdurdod cymwys am gyflawni'r gweithgareddau rheoli swyddogol ychwanegol. Yr unig eithriadau fydd pan fydd rhai ffactorau penodol yn berthnasol a gellid gostwng lefel y taliadau yn is na lefel y costau gwirioneddol (gweler cwestiwn ac ateb 44 isod).

C43. Sut bydd costau o'r fath yn cael eu cyfrifo?

A43. Cyfrifir y costau hyn ar sail y meini prawf a restrir yn Atodiad VI Rheoliad 882/2004:

- cyflogau'r staff sydd a wnelo â'r rheolaethau swyddogol;
- costau'r staff sydd a wnelo â'r rheolaethau swyddogol (cyfleusterau, offer, cyfarpar, hyfforddiant, teithio a chostau cysylltiedig); a
- chostau samplo a dadansoddi mewn labordy.

Bydd hyn yn sicrhau dull cyson o weithredu, er bod yn rhaid cydnabod y bydd rhywfaint o amrywiad i adlewyrchu gwahaniaethau mewn costau ar y lefel leol.

C44. Pa ffactorau y mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol cyn yr ystyrir gostwng lefel taliad?

A44. Dylid ystyried y canlynol: a) y math o fusnes dan sylw a'r ffactorau risg perthnasol; b) buddiannau busnesau â thrwybwn isel; c) dulliau traddodiadol a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu, prosesu a dosbarthu; a ch) anghenion busnesau mewn rhanbarthau lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol.

O ystyried nad taliadau am reolaethau beunyddiol yw'r rhain, rydym o'r farn mai dau ffactor yn unig sy'n debygol o fod yn berthnasol, yn ymarferol: buddiannau busnesau â thrwybwn isel; ac anghenion busnesau mewn rhanbarthau lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol.

C45. Yn achos gweithredwyr â thrwybwn isel, faint o ostyngiad fydd yn y taliad?

A45. O ystyried yr amrywiaeth eang o sectorau a mathau o weithredwyr a gwmpasir, a gwahaniaethau mewn amgylchiadau lleol, nid yw'n bosibl diffinio union ystyr 'trwybwn isel' neu fanylu ar ganran y gostyngiad a fydd yn berthnasol ym mhob achos, a bydd angen i'r awdurdod cymwys perthnasol ystyried hyn fesul achos.

C46. A fydd gostyngiad yn lefel y taliadau a godir ar yr holl weithredwyr sy'n gweithredu mewn rhanbarthau lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol?

A46. Na fydd. Rydym o'r farn y gellir gosod gweithredwyr o'r fath mewn dau grŵp; y rheiny sy'n anghysbell yn ddaearyddol; a'r rheiny mae nodweddion y dirwedd yn effeithio ar gynhyrchiant mewn modd anfanteisiol.

O ran y math cyntaf, fe allai costau cludiant ar gyfer yr awdurdod cymwys, os oes yn rhaid archwilio sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid/bwyd, fod yn anghymesur o uchel, ac rydym o'r farn y dylid ystyried hyn.

O ran yr ail fath, nid ydym o'r farn bod unrhyw nodweddion tirwedd o'r fath yn bodoli a allai gael effaith yn achos sefyllfaoedd lle mae gofyn codi taliadau Erthygl 28, felly ni fyddai gostyngiad yn briodol.

C47. Lle bo gweithredwyr yn anghysbell yn ddaearyddol, faint o ostyngiad fydd yn y taliad?

A47. Wrth gyfrifo taliadau i weithredwyr eu talu mewn ardaloedd sy'n anghysbell yn ddaearyddol, yn hytrach na chodi am gostau cludiant llawn, dylid cymhwyso cost gyffredinol cludiant ar gyfartaledd fesul rheolaeth swyddogol.

C48. A fydd gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd yn cael dadansoddiad o'r costau?

A48. Dylai anfoneb yr awdurdod cymwys nodi'r rheolaethau swyddogol y mae'r ffi yn berthnasol iddynt, ac amlinellu sut y cyfrifwyd hyn.

C49. A fydd gan weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd hawl i apelio yn erbyn y taliadau?

A49. Nid yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd 2007 yn cynnwys hawl ffurfiol i apelio. Fodd bynnag, gellir dadlau ynghylch rhesymoldeb taliad mewn llys sifil lle bo'r awdurdod cymwys yn dechrau achos cyfreithiol i adfer taliad Erthygl 28 y mae gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid/bwyd wedi methu â'i dalu.

C50. Pam nad yw'r Offeryn Statudol yn pennu hawl ffurfiol i apelio?

A50. Rydym o'r farn y bydd y llysoedd sifil yn darparu'r fforwm mwyaf priodol ar gyfer delio â chwynion o ran taliadau Erthygl 28. Bydd penderfynu ar y mater yn gyflymach ac yn llai lletchwith nag apêl ffurfiol i Lys Ynadon, neu i berson penodedig. Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn gyson â dull Defra o ran taliadau Erthygl 28 a godir dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007.

Atodiad: Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 – Erthyglau 26 i 29, ac Atodiad VI

PENNOD VI

CYLLIDO RHEOLAETHAU SWYDDOGOL

Erthygl 26

Egwyddor gyffredinol

Rhaid i Aelod-Wladwriaethau sicrhau bod adnoddau ariannol digonol ar gael i ddarparu'r staff a'r adnoddau eraill angenrheidiol ar gyfer rheolaethau swyddogol trwy ba gyfrwng bynnag yr ystyrir yn briodol, gan gynnwys trwy drethi cyffredinol neu drwy sefydlu ffioedd neu daliadau.

Erthygl 27

Ffioedd neu daliadau

1. Gall Aelod-Wladwriaethau gasglu ffioedd neu daliadau i dalu am gostau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol.

2. Fodd bynnag, o ran y gweithgareddau y cyfeirir atynt yn Atodiad IV, adran A, ac Atodiad V, adran A, rhaid i'r Aelod-Wladwriaethau sicrhau bod ffi yn cael ei chasglu.

3. Heb gyfyngu ar baragraffau 4 a 6, rhaid i ffioedd a gesglir o ran y gweithgareddau penodol a grybwyllir yn Atodiad IV, adran A ac Atodiad V, adran A beidio â bod yn is na'r cyfraddau isaf y manylir arnynt yn Atodiad IV, adran B ac Atodiad V, adran B. Fodd bynnag, am gyfnod trosiannol hyd 1 Ionawr 2008, o ran y gweithgareddau y cyfeirir atynt yn Atodiad IV, adran A, gall Aelod-Wladwriaethau barhau i ddefnyddio'r cyfraddau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn unol â Chyfarwyddeb 85/73/EEC.

Bydd y cyfraddau yn Atodiad IV, Adran B ac Atodiad V, Adran B yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd o leiaf, yn unol â'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 62(3), yn benodol er mwyn ystyried chwyddiant.

4. Yn achos ffioedd a gesglir at ddibenion rheolaethau swyddogol yn unol â pharagraff 1 neu 2:

(a) rhaid iddynt beidio â bod yn uwch na'r costau a ddaw i ran yr awdurdodau cymwys cyfrifol mewn cysylltiad â'r eitemau a restrir yn Atodiad VI; a

(b) gellir eu gosod ar un gyfradd wedi'i seilio ar y costau a ddaw i ran yr awdurdodau cymwys dros gyfnod penodol o amser neu, lle bo'n berthnasol, ar y symiau a osodir yn Atodiad IV, adran B neu yn Atodiad V, adran B.

5. Wrth osod y ffioedd, rhaid i Aelod-Wladwriaethau ystyried:

(a) y math o fusnes dan sylw a'r ffactorau risg perthnasol;

(b) buddiannau busnesau â thrwybwn isel;

(c) dulliau traddodiadol a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu, prosesu a dosbarthu;

(ch) anghenion busnesau mewn rhanbarthau lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol.

6. Yn achos math penodol o weithgareddau bwyd anifeiliaid neu fwyd, mae'n rhaid ystyried systemau hunanwirio ac olrhain y mae'r busnes bwyd anifeiliaid neu fwyd yn eu

gweithredu, yn ogystal â lefel y cydymffurfio a welir yn ystod rheolaethau swyddogol. O ystyried hyn, pan gyflawnir rheolaethau swyddogol yn llai aml, neu i ystyried y meini prawf y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(b) i (ch), gall Aelod-Wladwriaethau osod ffi'r rheolaeth swyddogol yn is na'r cyfraddau lleiaf y cyfeirir atynt ym mharagraff 4(b), cyn belled â bod yr Aelod-Wladwriaeth dan sylw'n darparu adroddiad i'r Comisiwn yn manylu ar:

(a) y math o fwyd anifeiliaid neu fwyd neu weithgaredd dan sylw;

(b) y rheolaethau a gyflawnwyd yn y busnes bwyd anifeiliaid a bwyd dan sylw; a

(c) y dull ar gyfer cyfrifo'r gostyngiad yn y ffi.

7. Pan fydd yr awdurdod cymwys yn cyflawni nifer o reolaethau swyddogol ar yr un pryd mewn un sefydliad, bydd yn rhaid iddo ystyried bod y rheolaethau hyn yn un weithgaredd a chodi un ffi.

8. Rhaid i'r gweithredwr neu ei gynrychiolydd dalu ffioedd sy'n ymwneud â rheolaethau mewnforio i'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am reolaethau mewnforio.

9. Rhaid peidio ag ad-dalu ffioedd yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, oni bai eu bod wedi'u casglu heb hawl.

10. Heb gyfyngu ar y costau a ddaw yn sgil y treuliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 28, rhaid i Aelod-Wladwriaethau beidio â chasglu unrhyw ffioedd ac eithrio'r rheiny y cyfeirir atynt yn yr Erthygl hon ar gyfer rhoi'r Rheoliad hwn ar waith.

11. Rhaid i weithredwyr neu fusnesau perthnasol eraill neu eu cynrychiolwyr gael prawf eu bod wedi talu ffioedd.

12. Rhaid i'r Aelod-Wladwriaethau gyhoeddi'r dull o gyfrifo ffioedd, a rhoi gwybod am hyn i'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn archwilio hyn i gadarnhau a yw'r ffioedd yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad hwn ai peidio.

Erthygl 28

Treuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol

Pan fydd datgelu achos o beidio â chydymffurfio'n arwain at reolaethau swyddogol sydd y tu hwnt i weithgareddau rheoli arferol yr awdurdod cymwys, dylai'r awdurdod cymwys godi taliadau ar y gweithredwyr sy'n gyfrifol am yr achos o beidio â chydymffurfio, neu efallai ar y gweithredwr sy'n berchen ar y nwyddau neu sy'n eu cadw ar y adeg pan gyflawnir y rheolaethau swyddogol ychwanegol, yn achos treuliau a ddaw yn sgil rheolaethau swyddogol ychwanegol. Gweithgareddau rheoli beunyddiol sy'n ofynnol dan gyfraith y Gymuned neu gyfraith genedlaethol ac, yn benodol, y rheiny a ddisgrifir yn y cynllun y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 41, yw gweithgareddau rheoli arferol. Mae gweithgareddau sydd y tu hwnt i weithgareddau rheoli arferol yn cynnwys cymryd a dadansoddi samplau, yn ogystal â rheolaethau eraill sy'n ofynnol i wirio graddau problem, i gadarnhau a yw camau cywiro wedi'u cymryd ai peidio, neu i ddatgelu a/neu gadarnhau achos o beidio â chydymffurfio.

Erthygl 29

Lefel treuliau

Wrth osod lefel y treuliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 28, rhaid ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u gosod yn Erthygl 27.

Atodiad VI

MEINI PRAWF I'W HYSTYRIED WRTH GYFRIFO FFIOEDD

1. Cyflogau'r staff sydd a wnelo â'r rheolaethau swyddogol;

2. Costau'r staff sydd a wnelo â'r rheolaethau swyddogol, gan gynnwys cyfleusterau, offer, cyfarpar, hyfforddiant, teithio a chostau cysylltiedig;

3. Costau samplo a dadansoddi mewn labordy.